**Enw'r Ysgol: Ysgol Tudweiliog**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

| **Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**<br>***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?*** |
|---|
| |
| Nodiadau:<br>Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdrin yn llwyddiannus yn y gwersi Addysg Grefyddol yn yr ysgol.<br>Maent yn hyderus wrth drafod ac ymateb i gwestiynau sylfaenol, gan eu bod yn cael profiadau i drafod yn y gwasanaeth boreol (dosbarth ac ysgol gyfan). Mae agwedd gadarnhaol i weld wrth iddynt ymchwilio i gredoau a dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gwahanol. Gwelwyd hyn drwy eu gwaith ymchwil diweddar ar Islam. Mae'r trafodaethau yn yr amser cylch wythnosol yn werthfawr gan ei fod yn cynnig cyfleoedd i fynegi barn ac ymholi am eu ymatebion personol i gredoau a theimladau.<br>Erbyn diwedd blwyddyn 6 mae bron bob un o'r disgyblion yn cyrraedd y lefel 4 disgwyliedig a tua hanner yn cyrraedd lefel 5. Gellir gweld fod y cynllunio trawsgwricwlaidd wedi cyfoethogi'r addysgu o fewn y pwnc. Cafodd blwyddyn 5 a 6 fwynhad o weithio cost trip i Mecca, a dod a'r profiad yn fyw iddynt.<br>Defnyddir dull 'yn y farchnad' ar 'gadair goch' i ddod a cymeriadau a chredoau gwahanol yn fyw i'r disgyblion.<br>Aethpwyd o dan groen hanes Rosa Parks a pha effaith yr oedd ei dewrder wedi wneud ar y ddynolryw drwy ddefnyddio 'mantell yr arbenigwr'. Cawsant foddhad o actio'r stori, a gwelwyd drwy hyn fod hyn wedi gyfoethogi'r dysgu.<br>Credwn fod angen rhoi sylw i gwestiynau anodd bywyd sy'n cael eu codi yn y dosbarth ynglŷn bywyd a marwolaeth. |
| **Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: Dda** |

| **Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**<br>***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?*** |
|---|
| |
| Gwelir diddordeb ac ymatebion brwd gan y disgyblion yn y maes. Maent wedi ymholi ac ymchwilio i wahanol gredoau gan feddwl am gwestiynau eu hunain cyn mynd ati i ddarganfod atebion. Mae'r disgyblion yn ymwybodol bod gwahanol grefyddau a'u credoau eu hunain a'i bod yn bwysig parchu pob aelod o gymdeithas.<br><br>Rydym yn lwcus iawn yn y pentref gan fod eglwys a chapel yma ac unigolion yn y gymdeithas sydd yn fodlon cyfrannu tuag at profiadau dysgu'r pant..<br><br>Bydd yr Ysgol yn cynnal gwasanaeth Diolchgarwch yn flynyddol yn yr eglwys a'r cyngor ysgol yn cyfarfod i drafod ac i bennu elusen i'w gefnogi. Bydd y drafodaeth yn drwyadl gyda pob aelod o'r cyngor yn cyfrannu ac yn rhoi eu barn gyda defnydd dda o resymau i gefnogi eu dewis. Fel arfer byddent yn dewis elusen sydd yn berthnasol i berson neu ddigwyddiad cyfredol ee Cymorth Cristnogol, RNLI, Ymchwil cancr. Bydd cyngerdd Nadolig yr ysgol yn digwydd yng nghapel y pentref. |
| **Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: Dda** |

| **Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**<br>***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog*** |
|---|
| |

Mae cynllun cyd-addoli Ysgol Tudweiliog wedi ei lunio i sicrhau parhad, amrywiaeth a ffocws clir ar gredoau a gwyliau Cristnogol..

Dydd Llun – gwasanaeth dosbarth – bydd plentyn yn dweud gweddi diolch

Dydd Mawrth – Athrawes CA2 - ffocws ar thema benodol am dymor (gyda cymorth y plant)

Dydd Mercher – Grŵp Agor y Llyfr / Gwirfoddolwr

Dydd Iau - Athrawes CA2 - ffocws ar thema benodol am dymor (gyda cymorth y plant)

Dydd Gwener – Athrawes CA2- Straeon Beiblaidd

Ceir cyfle yn y gwasanaethau hyn i fyfyrio, holi a thrafod materion sy'n codi yn yr ysgol neu y tu allan. Mae'r cyfnodau yma yn rhoi cyfle i'r plant drafod eu teimladau, gwrando ar eraill ac i barchu amrywiaeth barn.

Mae sawl haen i addysg grefyddol. Drwy ddilyn y Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru gallwn gyfoethogi addysg ein disgyblion. Gyda dyfodiad y Cwricwlwm Newydd mae dysgu trawsgwricwlaidd yn elfen gryf iawn ym myd addysg. Bydd y cynllunio yn drawsgwricwlaidd a fydd yn aml yn adeiladu ar wybodaeth blaenorol. Defnyddir amrywiaeth o adnoddau gan gynnwys llyfrau, eitemau ac ymwelwyr. Mae'n bwysig cadw'r pwnc yn fyw a pherthnasol i'r disgyblion a cael cyflwyniadau gwerthfawr; ar adegau byddwn yn defnyddio 'mantell yr arbenigwr' i gyflwyno sefyllfa neu broblem.

Bydd meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu, i waith ysgrifenedig, gyda'r disgyblion a bydd adborth i waith y plant trwy hunan-asesu, asesu cyfoedion yn ogystal âg asesiad athro.

Mae cynllunio manwl yn golygu y bydd y disgyblion yn aelodau uchelgeisiol, hyderus a gwybodus.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf mae'r plant wedi cael amrywiaeth o brofiadau gan gynnwys storïau o'r Beibl, gwasanaethau gan aelodau o Goleg y Bala, gwasanaethau gan bregethwyr, ymchwiliadau i grefydd arall (Islam), ymweliad dysgu â'r Mosg a'r Eglwys Gadeiriol ym Mangor (CA2), hanes arweinwyr byd eang (Rosa Parks a Martin Luther King) a sut maent wedi cael effaith ar bobl.

Mae'r ysgol yn gweithio'n galed i greu unigolion sydd a gwybodaeth gynhwysfawr o'r byd o'u cwmpas. Rydym yn cynnig profiadau a gwybodaeth i'r disgyblion am ein ardal lleol, Cymru ein gwlad a'r byd. Bydd y profiadau yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion i ymarfer eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCH yn rheolaidd; boed yn bamffled gwybodaeth, stori crefyddol, ymchwil, drama neu boster.

Mae angen rhoi sylw i'r ffurfio dadleuon a chyfiawnhau safbwyntiau gan gydnabod bod casgliadau yn rhannol yn unig, yn amhendant ac yn agored i ddehongliadau gwahanol.

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: Dda**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**

***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?***

Mae Llais y plentyn yn bwysig yma yn Ysgol Tudweiliog. Mae'r rhieni, athrawon a'r plant yn cael rhoi eu mewnbwn ar beth maent eisiau ei ddysgu yn ystod thema arbennig. Wrth gynllunio fel hyn, mae'r disgyblion yn awyddus i ymchwilio a bwrw ati yn y gwersi.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau chryf ar Parch Richard Wood yn Eglwys St Cwyfan, ble bydd y gwasanaeth Diolchgarwch yn cael ei gynnal yn flynyddol. Buom yno yn archwilio symbolau crefyddol yr eglwys, gan ganolbwyntio ar wisg Parch Wood drwy'r flwyddyn Gristnogol, symbolau yn yr eglwys e.e. Eryr ar y ddarllenfa, croesau a.y.b. Yn ddiweddar buon yn dilyn taith bywyd drwy'r eglwys gan ganolbwyntio ar wasanaeth bedydd Cristnogol. Rydym yn lwcus iawn cael eglwys mor hynafol ar garreg y drws fel petai.

Dafliad carreg o'r ysgol mae ein capel, ac fel yr eglwys mae'n bwysig iawn i fywyd yr ysgol. Byddwn yn cynnal y gwasanaeth Nadolig yno yn flynyddol, ac mae gennym gysylltiadau clos â'r Parch Olwen Williams, gan ei bod yn yr ysgol yn rheolaidd yn cynnal gwasanaethau boreol. Bob bore Mercher mae gennym wasanaeth bugeiliol wedi ei amserlennu. Bydd Parch Olwen yma yn fisol, Nia Williams o Sefydliad y Presbyteriaid yma bob hanner tymor, ac Agor y Llyfr (sefydliad dan ofal Andrew Settatree a bydd aelodau o sefydliadau Crefyddol yr ardal yn ei gefnogi) yma yn bythefnosol. Mae'r disgyblion yn mwynhau y gwasanaethau yma yn fawr iawn gan fod y straeon a gant o'r Beibl yn dod yn fyw iddynt drwy ddrama (ble mae'r plant yn cymryd rhan hefyd efo'r oedolion Agor y Llyfr), drwy gân (mae Nia Williams yn dod a'r gitâr bob tro) a trwy bypedau difyr ('Tecwyn' hefo Parch Olwen a 'Lewis' hefo Nia)

Yn dilyn y thema 'Breuddwydion' yn Ca2, bu'r plant wrthi yn ddyfal yn creu drama ar hanes Martin Luther King, ble roedd cydraddoldeb a hawliau dynol yn dod yn fyw iddynt. Cawsom gynnal gwasanaeth i weddill yr ysgol i actio'r ddrama. Yn yr un modd cafwyd ffilm fer o hanes Rosa Parks ar y bws, ble roedd y plant yn cynhyrchu, ffilmio ac action a'i dangos i weddill yr ysgol mewn gwasanaeth oedd yn dod a dewrder dros hilioldeb yn fyw.

Mae'r gwasanaethau wedi eu amserlennu yn briodol, fel i mi sôn yn gynharach mae ymwelwyr yn dod i mewn ar ddyddiau Mercher. Yna ar ddydd Llun mae gwasanaeth dosbarth i gyflwyno gair yr wythnos (geiriau ysbrydol neu foesegol megis, cyfeillgarwch, goddefgarwch, gonestrwydd…..). Ddydd Mawrth, Iau a Gwener, bydd gwasanaethau ysgol gyfan dan ofal yr athrawon. Fel arfer bydd rhain yn straeon i'r Beibl, moeswersi, neu yn hanes moesol e.e. Mari Jones a'i Beibl, neu Betsi Cadwaladr. Ar y dyddiau yma hefyd bydd y plant yn cael cyfle i gynnal gwasanaeth eu hunain. Credwn fod y ddarpariaeth yma yn gyfoethogi profiad addoli ar y cyd i'r disgyblion.

O bryd i'w gilydd, ar ddiwedd gwasanaeth bydd y disgyblion yn cael cyfle i arwain y weddi ar y diwedd i gael myfyrio ar yr hyn maent wedi ei ddysgu y bore hwnnw. Credwn fod hyn yn ffordd arbennig i ddechrau'r plant i fyfyrio ar eu credoau a'r gwerthoedd eu hunain. Os, ar unrhyw adeg yn niwrnod yr ysgol, bydd y plant angen amser i fyfyrio a meddwl, rydym wedi paratoi llecyn tawel yn yr ardd gyda meinciau, clychau bach a baneri, ble cant fynd yno.

Gan fod eu profiad o'r capel a'r eglwys, a'r unigolion sydd yn ymwneud a'r sefydliadau yma yn gryf iawn, ac eu bod wedi cael y profiad o ymweld â'r mosg ym Mangor, buasai taith i Synagog yn ddiddorol iawn iddynt er mwyn ehangu eu gwybodaeth ar fywyd ysbrydol yr Iddewon. Buasai hyn yn gallu dod ochr yn ochr pan fyddwn yn gweithio ar thema yr ail ryfel byd efallai.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | **/** | **Nac ydy** | |

**Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: Dda**

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**
***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?***

Mae'r arweinydd pwnc yn y rôl ers blynyddoedd bellach, ac felly yn brofiadol wrth arwain y pwnc yn yr ysgol. Mae'r ddwy athrawes yn cyd-drafod a chydgynllunio yn dymhorol wrth baratoi ar gyfer gwersi trawsgwricwlaidd) ac yn bythefnosol wrth drefnu gwersi. Byddwn yn monitro y pwnc bob dwy flynedd. Yn nhymor yr Haf, daeth y dalgylch ynghyd i gyd-gynllunio project thematig. Daeth llawer o syniadau difyr a defnyddiol o'r profiad hwn, ar gobaith yw cael gwneud yr un math o brosiect y tymor nesaf.

Buom yn lwcus fel ysgol yn ddiweddar, ble cafwyd rhodd gan y Gymdeithas rieni i wario ar adnoddau Addysg Grefyddol yn yr ysgol. Ar gyfer Ca2, buddsoddwyd yn y pecyn 'Cwestiynau Pwysig mewn Crefydd' sydd wedi bod yn adnodd gwerthfawr gan fod unedau o waith ynddo yn barod ar gyfer y cwestiynau penodol. Hefyd cawsom y cyfle i brynu'r llyfrau 'Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol, Cristnogaeth, Islam, Iddewiaeth.

Yn y CS, buddsoddwyd yn y pecyn 'Parchedig Puw a Pwllyn' gan Gill Vaisey. Mae'r llyfrau yn ddifyr ac yn dod ac arferion bywyd Cristnogol yn fyw a diddorol i'r plant drwy fywyd Pwllyn y gath fach ddireidus. Mae'r holl adnoddau Addysg Grefyddol wedi eu lleoli yn ganolog yng nghyntedd yr ysgol ar gyfer hwylustod i'r ddau ddosbarth. Caiff y rhieni eu hysbysu am yr hawl i dynnu plant o'r gwersi Addysg Grefyddol neu'r Gwasanaethau drwy lawlyfr yr ysgol sy'n cael ei ddosbarthu ar ddechrau'r flwyddyn addysgol. Hyd yma nid oes neb wedi gwneud cais i eithrio eu plant.

Heb os, y profiad gorau a gafodd y disgyblion y flwyddyn diwethaf o fewn y gwersi Addysg Grefyddol oedd ein taith i Fangor. Cafwyd profiad bythgofiadwy o'r ymweliad a'r mosg a'r gadeirlan, ble cawsom groeso twym galon, tystio gweddïo a defodau, a sylweddoli y tebygrwydd rhwng dwy grefydd yma yn lleol. Wedi dod nol i'r ysgol roeddynt yn ysu i gael ymchwilio mwy i grefydd Islam.

Gan fod y profiad hwn wedi bod mor werthfawr, credwn y buasai trip i synagog leol yn cyfoethogi eu dealltwriaeth o grefydd arall yn y dyfodol.

Nodiadau:

**Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: Da**

| **Agweddau i gael sylw** | **Camau gweithredu** | **Pwy ?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| | | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Cryno! Tua 50 o eiriau.

**Enw'r pennaeth Einir Davies**
**Llofnod y pennaeth** *Einir Davies*
**Dyddiad: Medi 25ain, 2019**